Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1SN

---

Hydref 2020

**Craffu ar COVID-19 a'i effaith ar y sector gwirfoddol**

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cynnal ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith.

**Cylch gorchwyl**

Rydym yn archwilio effaith y coronafeirws ar feysydd o fewn eich cylch gwaith. Fe wnaethom ni gyhoeddi ymgynghoriad ym mis Ebrill, ac nid oes rhaid iddo ddod i ben erbyn dyddiad penodol. Rydym am graffu mewn modd hyblyg i'n galluogi i ymateb i'r materion sy'n codi yng nghyd-destun sefyllfa sy'n newid drwy'r amser.

Rydym bellach yn canolbwyntio'n benodol ar effaith y pandemig ar y sector gwirfoddol, yn benodol:

- cyllid a darparu gwasanaethau;
- effeithiolrwydd y cymorth gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol;
- gwirfoddoli a chadernid cymunedol; ac
- arfer da a chyfleoedd a heriau yn y dyfodol.

Rydym yn awyddus i glywed gan randdeiliaid ac unrhyw un sydd â barn neu brofiad. Nid ydym yn disgwyl papurau tystiolaeth manwl neu hir – mae e-bost byr yn rhoi eich barn am effaith y pandemig ar y sector gwirfoddol, a'ch profiadau o hyn, yn fwy na digon. Byddwn yn cysylltu â chi'n uniongyrchol os oes unrhyw beth yr ydym am ei ddeall yn fwy llawn. Yn ogystal â chasglu barn y cyhoedd, rydym yn bwriadu cynnal sesiynau tystiolaeth gyda Gweinidogion perthnasol.

Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch neu os ydych am drafod hyn ymhellach, cysylltwch â:

Naomi Stocks
Clerc
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Senedd Cymru
SeneddCymunedau@senedd.cymru

Yn gywir

John Griffiths AS

Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.